***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 551

## Gorchymyn Proffesiynau Iechyd Cymru (Sefydlu, Aelodaeth, Cyfansoddiad a Swyddogaethau) 2004

**Prif Weithredwr**

**8.**—(1) Rhaid i PIC benodi person yn Brif Weithredwr.

(2) Y person cyntaf a benodir o dan baragraff (1) fydd y person a enwir gan y Cynulliad i ddal y swydd honno ar y dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

(3) O ran yr ail Brif Weithredwr ac unrhyw Brif Weithredwr wedyn a benodir o dan baragraff (1)—

(a) dim ond gyda chydsyniad y Cynulliad y penodir ef; a

(b) caiff ei benodi ar y telerau a'r amodau y caiff y Cynulliad benderfynu arnynt.

(4) Rhaid i PIC, os bydd y Cynulliad yn gofyn iddo wneud hynny—

(a) talu pensiwn, lwfansau neu arian rhodd y caiff y Cynulliad benderfynu arnynt i unrhyw berson sydd neu sydd wedi bod yn Brif Weithredwr PIC neu mewn perthynas ag ef; neu

(b) gwneud y taliadau hynny y caiff y Cynulliad benderfynu arnynt tuag at ddarparu taliad pensiwn, lwfans neu arian rhodd i berson o'r fath neu mewn perthynas ag ef.